Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Portffolio Trawsnewid Gweinyddu **Meddyginiaethau'n** Ddigidol
Digital **Medicines** Transformation Portfolio

Dogfen Ganllaw: Cronfa Arloesi System Fferylliaeth Gymunedol (CPSIF)

1. Crynodeb

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (LSHW) yn gweinyddu cronfa grant CPSIF mewn cydweithrediad ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) ar ran Llywodraeth Cymru.

Gall busnesau sydd wedi'u cofrestru yn y DU sydd â'r potensial i gyflenwi system rhagnodi sy'n barod ar gyfer gwasanaeth presgripsiwn electronig (EPS) yng Nghymru wneud cais am gyfanswm grant o hyd at £111,562.50 ar draws tair haen i alluogi trosglwyddo presgripsiynau'n electronig yng Nghymru. Mae cyllid ar gael i ddatblygu'r systemau sydd eu hangen i ddigideiddio fferylliaeth gymunedol yng Nghymru a chefnogi gweithgareddau i roi gwasanaeth presgripsiwn electronig (EPS) ar waith, a fydd yn arwain at brosesu presgripsiwn EPS byw yn llwyddiannus yng Nghymru drwy system cofnod meddyginiaeth claf (PMR) sicr (haen 1, hyd at £55,781). Gall ymgeiswyr ofyn am gymorth i ddatblygu a gweithredu newidiadau a fyddai'n lleihau'r gofynion ar gyfer defnyddio papur mewn fferyllfeydd yng Nghymru gan arwain at brawf o daith presgripsiwn di-bapur (haen 2, hyd at £27,891), a/neu ddatblygu dull o fewn cynllun PMR sy'n cynhyrchu hysbysiad gwthio i Ap GIG Cymru i hysbysu cleifion bod meddyginiaethau'n barod i'w casglu (gan gynnwys lleoliad fferyllfa ac oriau agor) (haen 3, hyd at £27,891).

Haen	Gofyniad	Gorfodol	Uchafswm y dyfarniad fesul buddiolwr
1	Gweithredu gwasanaeth rhagnodi electronig	Ydy	£55,781
2	Taith presgripsiwn di-bapur	Nac ydy	£27,891
3	Hysbysiad gwthio i Ap GIG Cymru	Nac ydy	£27,891

*Sylwer mai'r uchafswm sydd ar gael fesul buddiolwr ar gyfer pob un o'r tair haen yw £111,562.50.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at fundingsupport@lshubwales.com.

Mae cyllid grant ar gael hyd at 100% o gostau prosiect cymwys (mae uchafswm y cyllid sydd ar gael fesul haen yn y tabl uchod). Bwriad y grant yw bod yn gymhelliant i gwmnïau ddatblygu eu systemau i'w galluogi i gyflwyno EPS yng Nghymru. Bydd angen ariannu costau ychwanegol drwy ffynonellau eraill. Nid yw nifer y ceisiadau fesul cwmni wedi'u cyfyngu, ond ni fydd ymgeiswyr llwyddiannus yn gallu gwneud ceisiadau lluosog am haenau ariannu y dyfarnwyd cyllid iddynt yn flaenorol. Dylech wneud cais yn y lle cyntaf am gynifer o haenau â phosibl. Fodd bynnag, os mai dim ond am haen 1 y gallwch wneud cais i ddechrau, byddwch yn gallu cyflwyno cais ar gyfer haen(au) 2 a/neu 3, yn dibynnu ar eich llwyddiant wrth wneud cais am haen 1.

Cynghorir ymgeiswyr yn gryf i gyfeirio at y ddogfen ganllaw hon wrth ddatblygu eu ceisiadau ac i roi sylw arbennig i gwmpas a meini prawf cymhwysedd y rhaglen.

Gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg. Ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

2. Cyflwyniad

Yn ystod mis Medi 2021, nododd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol uchelgais am gynllun meddyginiaethau cynhwysfawr i Gymru a gofynnodd i DHCW sefydlu'r Portffolio Trawsnewid Gweinyddu Meddyginiaethau'n Ddigidol (DMTP). Bydd y DMTP yn "trawsnewid presgripsiynu yng Nghymru, wedi'i gefnogi gan blatfform digidol" ac yn cydlynu pedwar maes gwaith cydgysylltiedig: **Gwasanaeth presgripsiwn electronig gofal sylfaenol (EPS)**, rhagnodi a gweinyddu meddyginiaethau gofal eilaidd yn electronig, **mynediad i gleifion (trwy ap GIG Cymru)** a chofnod meddyginiaethau a rennir. Bydd y rhaglen yn sicrhau bod dinasyddion yn cael gwasanaethau sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau ac sydd wedi'u cynllunio o amgylch eu gofynion. Bydd yn sicrhau manteision ychwanegol gan gynnwys arbedion cost i'r GIG, a lleihau ôl troed carbon rhagnodi.

Er mwyn cefnogi datblygiad a chyflwyniad system EPS mewn gofal sylfaenol, rhaid datblygu systemau fferylliaeth gymunedol i gefnogi gweithrediad EPS sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio yn Lloegr. Bydd angen cyllid ar fferyllfeydd cymunedol ar gyfer newid busnes yn ogystal â hyfforddiant staff i gefnogi mabwysiadu systemau newydd a fydd yn cael eu darparu drwy godiad untro i'r Tariff Cyffuriau. Bydd angen i gyflenwyr systemau fferylliaeth gymunedol ddiweddaru eu systemau i gefnogi'r EPS, ac i gyflawni'r nodau perthnasol eraill a'r buddion a ragwelir o'r DMTP o gynhyrchu taith presgripsiwn di-bapur a galluogi mynediad cleifion drwy ap GIG Cymru. Er mwyn cymell cyflenwyr systemau fferylliaeth gymunedol i gyflawni'r newidiadau angenrheidiol, mae DHCW yn gweithio gydag LSHW i ddarparu cronfa grant CPSIF. Bydd cyllid ar gael fesul cyflenwr, yn hytrach na fesul fferyllfa. Cynlluniwyd y broses ymgeisio i sicrhau ein bod yn casglu digon o wybodaeth gan ymgeiswyr i sicrhau gwerth am arian cyhoeddus, ond hefyd i sicrhau bod y broses yn gymesur â swm y cyllid sydd ar gael.

3. Cwmpas

Rhaid i brosiectau anelu at wneud y canlynol:

- Datblygu a gweithredu'r newidiadau angenrheidiol i systemau fferylliaeth gymunedol i alluogi EPS mewn fferyllfa yng Nghymru trwy Gofnod Meddyginiaeth Claf (PMR) sicr;
- Yn ddewisol, datblygu a gweithredu newidiadau sydd eu hangen i systemau fferylliaeth gymunedol a fydd yn arwain at daith presgripsiwn di-bapur a/neu hysbysiad gwthio i Ap GIG Cymru mewn lleoliad fferylliaeth yng Nghymru.

Dim ond gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r nodau hyn sydd o fewn cwmpas y gronfa. Bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu rhannu'n dair haen (gweler isod). Bydd cyllid ar gael yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 a blwyddyn ariannol 2024/25, yn dechrau 01 Ebrill 2023 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025, a bydd yr holl weithgareddau a ariennir yn dod i ben erbyn 31 Ionawr 2025 a bydd angen cwblhau hawliadau erbyn 31 Mawrth 2025.

Haen 1 – Gweithredu EPS: Y gweithgareddau o fewn y cwmpas yw'r rhai sydd eu hangen i roi EPS ar waith mewn fferyllfeydd cymunedol a chontractwyr cyfarpar dosbarthu yng Nghymru, gyda'r holl swyddogaethau presennol ar gael yn Lloegr yn ogystal â gofynion penodol Cymru

gyfan. Mae'r gofynion Cymreig hyn wedi'u dogfennu yn *EPS_WELSH_SPECIFIC REQUIREMENTS_SRS_v2.0* (gweler Atodiad A isod). Ystyrir bod Haen 1 wedi'i chwblhau ar ôl i sgript EPS fyw gael ei phrosesu'n llwyddiannus yng Nghymru drwy system cofnod meddyginiaeth claf (PMR) sicr. Bydd yn rhaid i gyflenwyr gwblhau'r haen hon cyn bod yn gymwys i gael taliad ar gyfer haenau 2 a/neu 3. Bydd terfyn amser ar yr haen hon i annog cyflenwyr i roi blaenoriaeth i ddefnyddio EPS.

Haen 2 – Di-bapur: Mae'r gweithgareddau o fewn y cwmpas yn ddatblygiadau a nodwyd gan gyflenwyr i'w PMR a fydd yn lleihau'r gofynion am bapur i fferyllfeydd, ac yn arwain at daith presgripsiwn di-bapur, er gwaethaf hawl claf i ofyn am tocyn rhagnodi ar ffurf papur os bydd yn dymuno hynny. Bydd y daith ddi-bapur hefyd yn eithrio archebu presgripsiynau rheolaidd. Bydd cyflenwyr sydd wedi gwneud cais llwyddiannus am gyllid Haen 1 yn gymwys (ond nid yw'n ofynnol) i dderbyn cyllid Haen 2. Ystyrir bod Haen 2 wedi'i chwblhau pan fydd cyflenwr yn gallu dangos taith presgripsiwn di-bapur yn dilyn yr un achosion defnydd â haen 1.

Haen 3 – Hysbysiad gwthio: Y gweithgareddau o fewn y cwmpas yw'r rhai a fydd yn galluogi datblygu dull o fewn PMR sy'n arwain at hysbysiad gwthio safonol i Ap GIG Cymru i hysbysu claf bod ei feddyginiaeth yn barod i'w chasglu, ynghyd â lleoliad y fferyllfa a'i horiau agor. Mae'r rhaglen yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd (DSPP) i ddatblygu'r safon ofynnol yn y Gymraeg a'r Saesneg. At ddibenion yr haen hon, bydd cyflenwyr yn llwyddiannus pan fydd neges cydymffurfio ar gael ar y Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau (API) y tu ôl i Ap GIG Cymru. Bydd y fanyleb gofyniad yn cael ei rhannu â chyflenwyr mewn dogfen ar wahân. Bydd cyflenwyr sydd wedi gwneud cais llwyddiannus am gyllid Haen 1 yn gymwys (ond nid yw'n ofynnol) i dderbyn cyllid Haen 3. Nid yw gweithgareddau Haen 2 yn rhagofyniad ar gyfer cyllid Haen 3. Ystyrir bod Haen 3 wedi'i chwblhau ar ôl derbyn hysbysiad gwthio yn llwyddiannus trwy Ap GIG Cymru.

Ni fydd gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â'r haenau uchod neu sy'n cyd-fynd â'r gofynion safonol, neu nad ydynt yn arwain at y meini prawf llwyddiant (gweler Adran 8.2) o fewn cwmpas ariannu.

4. Meini prawf cymhwysedd

Rhaid i ymgeiswyr fod:

- Yn fusnes wedi'i gofrestru yn y DU.
- Yn gymwys i dderbyn cyllid grant o dan rwymedigaethau rheoli cymhorthdal presennol y DU ar gyfer Cymorth Ariannol Lleiaf, rheoliadau *de minimis* neu fel cymhorthdal untro.
- Yn gallu dangos bod ganddynt gyfrif banc yn y DU yn enw'r sefydliad sy'n ymgeisio.
- Heb fod mewn anawsterau ariannol (yn gallu pasio gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar statws busnes, ac yn gallu datgan nad yw'r busnes na'r ymgeiswyr a enwir yn destun unrhyw ymgyfreithiad perthnasol).
- Yn cyflenwi system cofnod meddyginiaeth claf (PMR) sy'n barod ar gyfer EPS i fferyllfeydd yng Nghymru ar yr adeg y mae meini prawf llwyddiant yn cael eu hasesu a chyn derbyn taliad.

- Yn gwneud cais am weithgareddau o fewn y cwmpas, gan gynnwys, fel isafswm, datblygu PMR sy'n barod ar gyfer EPS i'w ddefnyddio yng Nghymru (haen 1 / carreg filltir A).
- Yn hawlio hyd at uchafswm o £55,781 ar gyfer gweithgareddau haen 1, hyd at £27,891 ar gyfer gweithgareddau haen 2 a/neu hyd at £27,891 ar gyfer gweithgareddau haen 3, a dim mwy na £111,562.50 i gyd.
- Yn gallu cadarnhau bod angen cyllid grant i sicrhau bod y prosiect yn digwydd, h.y. na fydd gweithgarwch y prosiect yn parhau'n briodol heb ddefnyddio arian cyhoeddus a bod y gweithgaredd yn cynrychioli gwerth am arian.
- Yn hawlio costau refeniw net cymwys yn unig. Nid yw gwariant cyfalaf a TAW yn gymwys.
- Yn gallu dangos tystiolaeth o wariant ar weithgareddau prosiect a bod y canlyniadau gofynnol wedi'u cyflawni.
- Yn gallu dangos tystiolaeth bod unrhyw yswiriant a chydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol ar waith.
- Yn cynllunio i gwblhau'r holl weithgareddau a gwariant erbyn 31 Ionawr 2025, a bod y prosiectau wedi'u cau'n llawn a'r holl gostau wedi'u hawlio erbyn 31 Mawrth 2025.
- Yn gallu cytuno i a chymryd rhan mewn monitro chwarterol am o leiaf 12 mis ar ôl i'r cyfnod talu ddod i ben er mwyn sicrhau bod cynhyrchion yn parhau i fod ar gael i'r defnyddwyr arfaethedig.
- Yn gallu cytuno i rannu manylion a chanlyniadau prosiect lefel uchel yn gyhoeddus.

4.1 Costau refeniw cymwys

Mae'r grant wedi'i gyfyngu i wariant refeniw sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiect yn unig. Pan fydd eitemau'n cael eu defnyddio y tu allan i weithgaredd y prosiect, ni allwn ond ariannu'r gyfran o gostau'r eitem honno sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgaredd y prosiect. Rhaid i gostau refeniw y ceir tystiolaeth ohonynt fodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir isod er mwyn bod yn gymwys ar gyfer taliad. Sylwch nad yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr.

Costau cymwys	Costau anghymwys
Costau refeniw gan gynnwys amser staff/ymgynghorwyr a nwyddau traul	Costau cyfalaf (e.e. offer a pheiriannau a fydd yn cael eu cyfalafu yng nghyfrifon y cwmni, neu gostau nad ydynt wedi'u nodi fel costau refeniw yn ystod y cyfrifyddu)
Costau net	TAW
Costau refeniw meddalwedd sy'n angenrheidiol ar gyfer datblygu cynnyrch PMR a/neu haenau arloesi'r cynnyrch	Costau meddalwedd sy'n wariant cyfalaf ym maes cyfrifyddu a/neu nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau a amlinellir yn y cwmpas*
Costau a ysgwyddir ar ôl dyddiad y llythyr dyfarnu a chyn dyddiad diwedd y prosiect.	Costau a ysgwyddir **cyn** dyddiad y llythyr dyfarnu ac **ar ôl** dyddiad diwedd y prosiect (y

	dyddiad olaf ar gyfer gwariant fydd 31 Ionawr 2025).
Costau y gellir dangos tystiolaeth ohonynt trwy dderbynebau gwreiddiol, cyfriflenni banc yn enw busnes y buddiolwr a/neu adroddiadau cynllun Talu Wrth Ennill.	Trafodion lle nad oes digon o dystiolaeth o lwybr talu archwiliadwy gan gynnwys gwariant cardiau credyd a thrafodion arian parod.
Costau'n ymwneud yn benodol â'r gwaith sydd ei angen ar gyfer y prosiect.	Costau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gwaith sydd eu hangen ar gyfer y prosiect gan gynnwys cynlluniau wrth gefn a chostau busnes fel arfer.
Costau datblygu.	Unrhyw atebolrwydd sy'n deillio o esgeulustod ar ran y Derbynnydd, ei gynrychiolwyr, contractwyr neu asiantau eraill.
Costau gosod a chomisiynu.	Costau hyfforddi.
	Costau danfon/cludo.

*Os ydych yn ansicr a ddylid cyfalafu cost ar gyfrifon eich cwmni, rydym yn argymell eich bod yn caelcyngor annibynnol.

5. Proses ymgeisio

Gall busnesau sydd wedi'u cofrestru yn y DU sydd eisoes yn cyflenwi systemau fferylliaeth gymunedol yng Nghymru neu sydd â'r potensial i gyflenwi'r systemau hyn, wneud cais am grant CPSIF o hyd at £111,562.50 drwy gynllun ariannu nad yw'n gystadleuol a fydd yn agor ym mis Ebrill 2023 ac yn cau ym mis Hydref 2024. Rydym yn rhagweld y byddwn yn cynnwys hyd at 7 dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yn ystod y cyfnod hwn, wedi'u hamserlennu dros dro ar gyfer:

- Ebrill 2023, disgwylir penderfyniad y panel asesu ym mis Mai 2023
- Gorffennaf 2023, disgwylir penderfyniad y panel asesu ym mis Awst 2023
- Hydref 2023, disgwylir penderfyniad y panel asesu ym mis Tachwedd 2023
- Rhagfyr 2023, disgwylir penderfyniad y panel asesu ym mis Ionawr 2024
- Ebrill 2024, disgwylir penderfyniad y panel asesu ym mis Mai 2024
- Gorffennaf 2024, disgwylir penderfyniad y panel asesu ym mis Awst 2024
- Hydref 2024, disgwylir penderfyniad y panel asesu ym mis Tachwedd 2024

Rhoddir cyllid i sefydliadau cymwys, pan fo eu ceisiadau yn bodloni cwmpas a meini prawf cymhwysedd y rhaglen, fel taliad fesul cam o hyd at 100% o gostau prosiect cymwys ar ddiwedd pob haen (uchafswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer pob haen a manylir ar y gweithgaredd gofynnol yn y tabl taliadau haenog). Cyfyngir ceisiadau i ganiatáu un dyfarniad yn unig fesul haen, fesul busnes cofrestredig.

Dylai ymgeiswyr gwblhau'r ffurflen gais ar-lein sydd ar gael ar wefan LSHW cyn dyddiad cau'r rownd y maent yn bwriadu gwneud cais iddi. **Cyhoeddir dyddiadau cau ar dudalennau gwe LSHW.**

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu eu cynlluniau ar gyfer galluogi EPS (haen 1, hyd at £55,781 ar gael fesul ymgeisydd), a'u cynlluniau ar gyfer, neu eu bwriad i wneud cais wedi hynny am haenau dewisol ar gyfer galluogi taith presgripsiwn di-bapur (haen 2, hyd at £27,891 ar gael fesul ymgeisydd) a/neu hysbysiad gwthio (haen 3, hyd at £27,891 ar gael fesul ymgeisydd). Bydd ffurflenni cais yn casglu gwybodaeth gan gynnwys cynlluniau prosiect, profiad perthnasol, costau a ragwelir a statws cymhorthdal y sefydliad sy'n ymgeisio. Bydd ceisiadau sy'n bodloni'r cwmpas a'r meini prawf cymhwysedd (a bennir gan asesiad panel) yn cael cyllid. Os nad yw ymgeiswyr yn gallu cyflwyno cynlluniau ar gyfer haen 2 a/neu 3 yn y cais cyntaf, byddant yn gallu gwneud cais dilynol ar gyfer yr haenau hyn, ar yr amod y gwnaed cais am haen 1. Rhaid i bob ymgeisydd wneud cais am haen 1 o leiaf, a bydd ceisiadau llawn ar gyfer haen(au) 2 a/neu 3 yn cael eu derbyn a'u hasesu yn dilyn llythyr cynnig grant ar gyfer haen 1. Bydd ceisiadau ar gyfer haenau 2 a 3 yn dilyn proses debyg i'r un ar gyfer haen 1. Os bydd eich cynlluniau prosiect yn newid ar ôl i lythyr dyfarnu gael ei anfon, rhaid i chi gysylltu â fundingsupport@lshubwales.com i drafod cyn ymrwymo i unrhyw wariant neu weithgaredd nad yw wedi'i amlinellu yn eich ffurflen gais.

Byddwn yn adolygu ceisiadau o ran cydymffurfiaeth ac efallai y bydd angen i ni gysylltu â chi i ofyn am ragor o fanylion os bydd unrhyw wybodaeth yn cael ei hepgor o'ch ffurflen gais. Gall hyn achosi oedi cyn cymeradwyo'ch cais. Byddwn yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar fusnes yr ymgeisydd gan gynnwys gwiriad credyd meddal a'ch cyfrifon cyhoeddus diwethaf. Os yw'n ymddangos bod busnes yr ymgeisydd mewn trafferthion ariannol, ni fydd yn bosibl darparu cyllid. Efallai y byddwn hefyd yn gwirio unrhyw gyfraddau dyddiol ar gyfer staff i sicrhau eu bod yn cynrychioli gwerth am arian.

5.1 Cwblhau'r Ffurflen Gais

Mae'r ffurflen gais ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan LSHW. Rhaid llenwi pob adran cyn anfon y ffurflen ynghyd ag atodiadau perthnasol i fundingsupport@lshubwales.com cyn dyddiad cau'r rownd ariannu yr ydych am wneud cais iddi. Mae'r cwestiynau y mae'n rhaid i chi eu hateb yn yr adrannau lliw glas. Mae gwybodaeth i'ch helpu yn yr adrannau llwyd. Rhaid i chi nodi'ch ymatebion yn yr adrannau gwyn. Sicrhewch fod pob atodiad ar ffurf pdf. Unwaith y byddwch wedi llofnodi'r ffurflen gais yn ddigidol, ni fyddwch yn gallu gwneud unrhyw newidiadau pellach. Sicrhewch eich bod yn llenwi pob maes yn y ffurflen cyn ychwanegu eich llofnod.

Adran 1 Manylion yr Ymgeisydd: Cwblhewch yn llawn gyda'ch holl fanylion. Mae'n rhaid i'r person sy'n llenwi'r ffurflen gais ar ran y cwmni gael yr awdurdod i lofnodi cytundeb ac iddo rym cyfreithiol ar ran y cwmni. Cofiwch **atodi tystiolaeth** o gyfrif banc eich cwmni. Gallwch olygu unrhyw wybodaeth nad ydych am i ni ei gweld.

Adran 2 Manylion y Prosiect: Mae angen i ni sicrhau bod eich cynlluniau yn cyd-fynd â'r amserlenni ar gyfer cronfa CPSIF a'ch bod yn gwneud cais am weithgareddau o fewn y cwmpas. Rhowch grynodeb byr o'ch cynlluniau ar gyfer pob haen ariannu yr ydych yn bwriadu

gwneud cais amdani. Os nad ydych yn gwneud cais am yr holl haenau ariannu nawr, gallwch wneud cais am haenau 2 a 3 yn ddiweddarach, ar yr amod eich bod wedi gwneud cais llwyddiannus am haen 1.

Adran 3 Cwmpas: Mae angen i ni sicrhau bod eich cynlluniau yn cyd-fynd yn llawn â chwmpas a meini prawf llwyddiant y CPSIF. Rydym eisiau gwybod beth fydd canlyniadau (allbynnau) y prosiect. Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym sut y bydd eich cynlluniau yn arwain at y meini prawf llwyddiant a amlinellir yn Adran 8.2.

Adran 4 Ymagwedd: Mae angen i ni ddeall y dull technegol y byddwch yn ei ddefnyddio i gyflawni prosiect llwyddiannus (gan gyfeirio at y meini prawf llwyddiant a amlinellir yn Adran 8.2). Cynhwyswch unrhyw fanylion am heriau neu rwystrau a ragwelir.

Adran 5 Tîm y Prosiect: Mae angen i ni ddeall pwy fydd yn cymryd rhan yn y prosiect, a sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i gyflawni canlyniadau'r prosiect.

Adran 6 Llwybr i'r farchnad ac effaith: Mae angen i ni ddeall eich sefyllfa bresennol yn y farchnad i sicrhau eich bod yn bodloni ein gofynion cymhwysedd. Mae angen i ni hefyd ddeall eich cwsmeriaid targed ar gyfer canlyniadau'r prosiect, a'u cymhelliant dros ddefnyddio'ch cynnyrch terfynol. Arian cyhoeddus yw'r arian a ddarperir drwy'r rhaglen hon. Felly, mae angen i ni ddeall sut y bydd y gweithgaredd arfaethedig yn darparu gwerth ychwanegol, er enghraifft, gallai effeithio ar eich busnes (er enghraifft, a fydd yn cynyddu cynhyrchiant a thwf, yn eich gwneud yn fwy cystadleuol, yn caniatáu ichi recriwtio neu gadw staff), yn arwain at arbedion cost i chi a/neu eich cwsmeriaid, yn arwain at fwy o foddhad gan eich cwsmeriaid (neu gleifion), yn ogystal â'r manteision y bydd derbyn arian cyhoeddus yn eu rhoi i'r prosiect arfaethedig (a fydd cwmpas y gwaith yn fwy, a fydd canlyniadau'n cael eu cyflwyno'n gyflymach, a fydd y prosiect ond yn hyfyw gyda chefnogaeth y cyhoedd). Amlinellwch hefyd beth fydd yn digwydd i'r gweithgareddau arfaethedig pe bai eich cais am arian yn cael ei wrthod.

Adran 7 Rheoli'r prosiect: Rhowch fanylion eich dull rheoli prosiect. Sylwch y bydd cerrig milltir ar gyfer taliadau fesul cam ar yr adeg pan fyddwch yn gallu dangos gwariant ar gyfer cynnydd yn erbyn haen benodol, yn ogystal â'r meini prawf llwyddiant ar gyfer yr haen honno. **Atodwch fap trywydd** yn manylu ar y cynlluniau ar gyfer symud y prosiect yn ei flaen. Dylech ystyried y broses sicrwydd, a sicrhau bod digon o amser i DHCW sicrhau cynhyrchion y prosiect.

Adran 8 Risgiau: Rhowch fanylion y prif risgiau i'r prosiect. Efallai yr hoffech gyfeirio'n benodol at EPS_WELSH_SPECIFIC_REQUIREMENTS_SRS v2.0 (Atodiad A) a Manyleb Cydymffurfiaeth Systemau Dosbarthu v5.4 (NPFIT-ETP-EDB-0024) (Atodiad B). Peidiwch ag anghofio cynnwys unrhyw hawlenni neu yswiriant yn yr adran hon, ac unrhyw fesurau lliniaru.

Adran 9 Costau: Rhowch amcangyfrif o'r holl gostau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r prosiect trwy gwblhau'r tabl yn llawn. Dim ond costau refeniw amlwg sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â gweithgareddau o fewn y cwmpas sy'n gymwys ar gyfer cyllid grant. **Rhaid atodi dyfynbrisiau** ar gyfer pob eitem â gwerth dros £1,000, gyda dau ddyfynbris am bob

eitem â gwerth dros £1,999, gyda thri dyfynbris ar gyfer pob eitem â gwerth dros £5,000. Os nad ydych wedi dewis y dyfynbris rhataf, rhaid i chi roi cyfiawnhad. Nid oes angen dyfynbrisiau ar gyfer costau staff mewnol, ond rhaid i'r rhain gynrychioli cyfradd ddyddiol resymol. Nid yw costau a fydd yn cael eu cyfalafu yng nghyfrifon eich cwmni yn gymwys. Gweler Adran 4.1 am enghreifftiau o gostau cymwys ac anghymwys. Sicrhewch eich bod yn barod i ddarparu tystiolaeth o wariant ar gyfer yr holl gostau yr hoffech wneud cais amdanynt, gweler Adran 8.1. **Rhaid i wariant fod wedi digwydd ar ôl dyddiad y llythyr cynnig er mwyn bod yn gymwys am gyllid.**

Adran 10 Statws Cymhorthdal: Mae'n rhaid i chi gwblhau'r datganiad cymhorthdal fel ein bod yn deall y llwybr gorau i ddyfarnu cyllid os bydd eich cais yn llwyddiannus. Gallwn ddyfarnu cyllid o dan y llwybrau Cymorth Ariannol Lleiaf, *de minimis* neu gymhorthdal untro. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn gymwys i dderbyn cyllid o dan y llwybr a nodir yn eich llythyr cynnig os bydd eich cais yn llwyddiannus. Os ydych yn ansicr ynghylch statws cymhorthdal eich cwmni, rydym yn argymell eich bod yn gofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol.

Adran 11 Datganiad: Mae'n rhaid i'r adran hon o'r ffurflen gais gael ei llofnodi gan berson sydd ag awdurdod priodol o'r cwmni sy'n gwneud y cais. Gallwch gynnwys dau lofnodwr os yw'n briodol ar gyfer strwythur eich cwmni. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd angen i ni baru'r llofnod ar y ffurflen gais â dogfennau eraill yn ddiweddarach, felly rhowch gopi electronig o'ch llofnod gwlyb, neu argraffwch a llofnodwch y datganiad cyn anfon copi wedi'i sganio atom.

6. Proses asesu

Bydd ceisiadau cyflawn yn cael eu hasesu gan banel i weld a ydynt yn cyd-fynd â'r cwmpas a'r meini prawf cymhwysedd. Bydd ceisiadau sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd a'r cwmpas yn cael eu dewis ar gyfer cyllid a gwneir dyfarniadau trwy lythyr swyddogol. Bydd penderfyniadau'r panel asesu'n cael eu hystyried yn derfynol, a bydd Phrif Swyddog Gweithredol LSHW yn cadw'r hawl i wrthod ariannu ceisiadau pan allai hyn arwain at niweidio enw da LSHW. Bydd paneli asesu'n cael eu cynnull mor agos â phosibl at ddyddiadau cau rowndiau ariannu, a chaiff penderfyniadau eu cyflwyno i ymgeiswyr o fewn 5 diwrnod gwaith i asesiad y panel. Mewn achosion pan fydd y panel yn barnu nad oes digon o wybodaeth wedi'i darparu yn eich cais, neu pan fo gwiriadau cychwynnol yn dangos bod angen rhagor o wybodaeth, efallai y byddwn yn cysylltu â chi i ddarparu'r wybodaeth hon.

6.1 Meini prawf asesu

Bydd aelodau'r panel yn gwerthuso pob adran o'r ffurflen gais a gyflwynir gan ymgeiswyr yn erbyn y meysydd canlynol (bydd asesiad negyddol yn golygu na ellir symud ymlaen â'r cais):

- Yn bodloni'r holl feini prawf cymhwysedd;
- Yn gallu dangos gallu i ymgymryd â datblygiad meddalwedd angenrheidiol – datblygiad blaenorol (e.e. EPS ar gyfer Lloegr, system PMR presennol/sy'n cael ei datblygu), staff â sgiliau angenrheidiol (e.e. penseiri systemau, datblygwyr meddalwedd, perchnogion cynnyrch);

- Cais am gynllun clir ar gyfer datblygu a gweithredu haenau gan roi ystyriaeth i amserlen ariannu (BA 23/24 a BA 24/25);
- Yn gallu cynhyrchu map trywydd sy'n realistig o fewn cwmpas y Gronfa Arloesi ac sydd â cherrig milltir clir;
- Tîm y prosiect ar waith ac yn briodol;
- Sicrwydd gan GIG Lloegr: System PMR eisoes wedi'i sicrhau gan GIG Lloegr. Os nad yw wedi'i sicrhau eto, yn gallu dilysu bod sicrwydd o fewn amserlenni'r Gronfa yn rhesymol (e.e. eisoes mewn trafodaethau, gyda llinellau amser pendant ar waith gyda GIG Lloegr);
- Mae amcangyfrifon cost yn gymwys, yn briodol, yn rhesymol, ac yn ymwneud yn uniongyrchol â chwmpas y prosiect.

Mae'r matrics asesu fel a ganlyn:

Adran 1
Mae'r ymgeisydd yn fusnes sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac yn endid sengl, ac nid yw'n ymddangos ei fod mewn trafferthion ariannol yn ôl y ffurflen gais, adroddiad Creditsafe a data Tŷ'r Cwmnïau. Mae gan yr ymgeisydd gyfrif banc addas yn y DU.
Ni fydd gweithgarwch y prosiect yn effeithio ar fasnach ar draws ffin Gogledd Iwerddon/yr Undeb Ewropeaidd.
Adran 2
Cynllunnir gweithgarwch y prosiect o fewn y cyfnod amser a ganiateir ac mae crynodeb yn nodi ei fod yn cyd-fynd â'r cwmpas a'r meini prawf cymhwysedd.
Adran 3
Mae cwmpas y prosiect yn cyd-fynd â'r cwmpas a amlinellir yn y canllawiau. Bydd y prosiect yn cyflawni yn erbyn yr holl feini prawf llwyddiant gofynnol.
Adran 4
Mae'r dull a amlinellir yn rhoi hyder i'r aseswr y caiff y prosiect ei gyflawni i'r cwmpas.
Adran 5
Mae tîm y prosiect yn briodol ac yn angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau.
Adran 6
Ar hyn o bryd, mae'r ymgeisydd yn cyflenwi, neu â'r potensial i gyflenwi fferyllfeydd yng Nghymru â chynnyrch fferylliaeth ddigidol e.e. mae system fferylliaeth wedi'i sicrhau yn Lloegr, NEU yn y broses o gael ei sicrhau gan GIG Lloegr, NEU fod ag amserlen glir i gael sicrwydd i fynd yn fyw o fewn amserlen y CPSIF.
Bydd y prosiect yn arwain at werth ychwanegol i'r trethdalwr.
Mae'r aseswr yn hyderus bod angen arian cyhoeddus ar y prosiect ac na fydd yn mynd rhagddo'n briodol heb grant.
Adran 7
Mae'r dull o reoli prosiect yn rhoi sicrwydd i'r aseswr y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau o fewn cwmpas ac o fewn cyfyngiadau amser.
Mae cerrig milltir yn digwydd ar amser a chost briodol.
Adran 8
Mae'r dull o reoli risg yn briodol a rhoddwyd ystyriaethau a mesurau lliniaru angenrheidiol.
Adran 9

Mae'r costau a gyflwynir yn refeniw cymwys, mae'n ymddangos eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau prosiect, eu bod ar gyfer gweithgareddau hanfodol, yn rhesymol, ac mae'r aseswr yn hyderus y gellir darparu tystiolaeth o'r rhain ar adeg hawlio.
Mae costau yn cynrychioli gwerth am arian.
Adran 10
Nid yw'r ymgeisydd wedi mynd dros ei drothwy cymhorthdal (£315,000 dros y flwyddyn gyfredol a'r 2 flynedd flaenorol) ac ni fydd y dyfarniad yn golygu bod yr ymgeisydd yn mynd dros ei drothwy cymhorthdal.
Adran 11
Mae'r ymgeisydd wedi cwblhau'r datganiad yn briodol.

7. Y broses ddyfarnu

Bydd penderfyniadau panel asesu yn cael eu cyfleu i ymgeiswyr trwy lythyr swyddogol. **Ni ddylech ddechrau unrhyw waith ar y prosiect hyd nes y byddwn wedi cadarnhau'n ysgrifenedig y gallwch wneud hynny. Os byddwch yn dechrau gweithio cyn bod cytundeb grant wedi'i lofnodi (sylwer nad yw hwn yr un peth â llythyr cynnig) yn ei le rhwng LSHW a'r sefydliad sy'n cael budd, rydych yn gwneud hynny ar eich menter eich hun.** Bydd llythyrau dyfarnu yn manylu ar y drefn gymhorthdal ar gyfer gwneud unrhyw ddyfarniad ac unrhyw ofynion cyn y contract gan gynnwys llenwi ffurflen cyflenwr newydd a fydd yn ein galluogi i ddilysu eich cyfrif banc yn y DU yn enw'r cwmni sy'n gwneud cais y gellir talu arian grant iddo fel eich bod yn gallu derbyn cyllid.

Ni fydd modd talu arian grant i ymgeiswyr llwyddiannus cyn i gytundeb grant (contract) ar gyfer y gwaith ddod i rym. Darperir cytundeb grant i ymgeiswyr llwyddiannus sy'n cynnwys cerrig milltir y byddant yn hawlio taliadau fesul cam yn eu herbyn, a'r amodau ar gyfer gwneud y taliadau hyn. Bydd y cerrig milltir yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarperir yn Adran 9 o'r ffurflen gais.

7.1 Cytundebau grant (contractau)

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn llofnodi cytundeb grant cadarn sy'n nodi telerau ac amodau'r grant. **Ni ddylai'r ymgeisydd, o dan unrhyw amgylchiadau, barhau â gweithgaredd i'w ariannu gan y grant cyn i'r darparwr cyllid roi cadarnhad ysgrifenedig i'r ymgeisydd y gall y gwaith ddechrau.** Rydym yn deall bod amgylchiadau'n newid, felly os hoffech wneud newid i'ch contract, dylech gysylltu â fundingsupport@lshubwales.com i drafod. Mae'n bosibl y bydd amrywiadau i gytundebau ariannu mewn rhai amgylchiadau, ar yr amod bod allbynnau eich prosiect yn dal yn gyson â'r meini prawf llwyddiant yn Adran 8.2.
Bydd cymeradwyo contract yn rhagofyniad ar gyfer unrhyw daliadau y cytunir arnynt.

8. Ceisiadau am daliadau grant

Rhoddir taliadau grant i fuddiolwyr ar gyfer gwariant fesul cam mewn atodlen a amlinellir yn y cytundeb grant. **Rhaid i wariant fod wedi digwydd ar ôl dyddiad y llythyr cynnig er mwyn bod yn gymwys am gyllid.** Bydd yn ofynnol i fuddiolwyr gyflwyno tystiolaeth o gostau gwirioneddol ac adroddiad cynnydd, ynghyd â chais am daliad am wiriadau diwydrwydd dyladwy i fundingsupport@lshubwales.com cyn gwneud taliadau. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth dechnegol bod y meini prawf llwyddiant technegol sy'n ofynnol ar bob haen wedi'u cyflawni. Gall hyn gynnwys cynnal ymweliad gan fonitor prosiect naill ai yn y busnes sy'n ymgeisio neu mewn lleoliad fferyllfa er mwyn dangos allbynnau.

8.1 Tystiolaeth addas o wariant

Gall tystiolaeth o wariant gynnwys derbynebau neu anfonebau gwreiddiol a thystiolaeth o daliad yn gadael cyfrif busnes cofrestredig yn enw'r sefydliad derbyn, rhaid i gostau staff uniongyrchol gael eu hategu gan gofnodion Talu wrth Ennill a thaflenni amser. Nid yw gwariant cerdyn credyd ac arian parod yn gymwys. Rhaid i lwybr archwilio addas ddangos tystiolaeth o unrhyw wariant.

8.2 Meini prawf llwyddiant technegol ar gyfer talu haenau ariannu

Haen 1: Gweithredu EPS

HAEN	RHIF MAEN PRAWF	MAEN PRAWF LLWYDDIANT	TYSTIOLAETH
1	1.1	Prosesu sgript EPS fyw yn llwyddiannus trwy system PMR sicr* mewn fferyllfa yng Nghymru	EPS yn cael ei ddefnyddio mewn o leiaf un fferyllfa gymunedol. Tîm rhaglen EPS i gadarnhau drwy PCGC fod presgripsiwn wedi'i ddosbarthu'n llwyddiannus, gan ddefnyddio'r prosesau priodol (gan gynnwys cardiau clyfar) a'i ad-dalu gan ddefnyddio EPS.
1	1.2	Enwebiad gan glaf	Claf/defnyddiwr yn gallu chwilio am, ac enwebu, fferyllfa gymunedol gan ddefnyddio system PMR parod EPS cyflenwyr/datblygwyr
1	1.3	Wedi'i gyflwyno mewn amgylchedd byw mewn o leiaf un fferyllfa gymunedol ac ar gael i'w gyflwyno'n ddewisol i gontractwyr dosbarthu	Wedi'i gyflwyno mewn amgylchedd byw wedi'i gadarnhau gan dîm rhaglen EPS
1	1.4	Cydymffurfio ag *EPS_WELSH_SPECIFIC REQUIREMENTS_SRS (v2.0)*	Bod yn dyst i brofion gan dîm rhaglen EPS → Cwblhau proses sicrwydd EPS Cymru
1	1.5	Cydymffurfiaeth â Manyleb Cydymffurfiaeth Systemau Dosbarthu v5.4 (NPFIT-ETP-EDB-0024)	Bod yn dyst i brofion gan dîm rhaglen EPS→ Cwblhau proses sicrwydd EPS Lloegr

Haen 2: Prosesau di-bapur

HAEN	RHIF MAEN PRAWF	MAEN PRAWF LLWYDDIANT	TYSTIOLAETH
2	2.1	Mae'r cyflenwr yn gallu dangos taith presgripsiwn di-bapur drwy system PMR sicr* mewn fferyllfa yng Nghymru yn dilyn yr un achosion defnydd ag yn haen 1 (mae archebu presgripsiwn rheolaidd y tu allan i'r cwmpas ac felly nid oes angen iddo fod yn ddi-bapur)	Bod yn dyst i brofion gan dîm rhaglen EPS
2	2.2	Wedi'i gyflwyno mewn amgylchedd byw i'w ddefnyddio mewn o leiaf un fferyllfa gymunedol ac ar gael i'w gyflwyno'n ddewisol i gontractwyr dosbarthu	Wedi'i gyflwyno mewn amgylchedd byw wedi'i gadarnhau gan dîm rhaglen EPS
2	2.3	Yn gallu arddangos gwybodaeth presgripsiwn ar sgrin a/neu ddyfais fel y gall fferyllydd gynnal a chofnodi gwiriad clinigol o fewn y system PMR heb fod angen argraffu ar bapur	Bod yn dyst i brofion gan dîm rhaglen EPS
2	2.4	Y gallu i ddefnyddwyr oedi ac ailddechrau'r broses ddosbarthu ddi-bapur o'r dechrau i'r diwedd ar unrhyw adeg (gan gynnwys y gallu i newid defnyddwyr) heb golli gwaith blaenorol	Bod yn dyst i brofion gan dîm rhaglen EPS
2	2.5	Yn gallu caniatáu defnyddiwr i ddewis a chydosod eitemau ar gyfer presgripsiwn heb fod angen tocyn dosbarthu wedi'i argraffu neu 'restr ddewis'	Bod yn dyst i brofion gan dîm rhaglen EPS
2	2.6	Yn gallu caniatáu i ddefnyddiwr gwblhau gwiriad cywirdeb heb docyn wedi'i argraffu	Bod yn dyst i brofion gan dîm rhaglen EPS

Haen 3: Hysbysiad gwthio i Ap GIG Cymru

HAEN	RHIF MAEN PRAWF	MAEN PRAWF LLWYDDIANT	TYSTIOLAETH
3	3.1	Neges gydymffurfio wedi'i gwthio i'r API y tu ôl i Ap GIG Cymru. Neges i gynnwys: manylion cywir y claf (gan gynnwys rhif GIG), hysbysiad 'meddyginiaethau'n barod i'w casglu', lleoliad a manylion cyswllt y fferyllfa a'i horiau agor**	Tîm Rhaglen EPS i gadarnhau gyda DSPP/Kainos bod y neges honno wedi cyrraedd API o system PMR sicr* mewn fferyllfa yng Nghymru
3	3.2	Wedi'i gyflwyno i'w ddefnyddio mewn o leiaf un fferyllfa gymunedol	Bod yn dyst i brofion gan dîm rhaglen EPS

		ac ar gael i'w gyflwyno'n ddewisol i gontractwyr dosbarthu	

*Cyfeiriwch at Atodiad C
**Noder y bydd y fanyleb gofyniad ategol ar gyfer yr haen hon yn cael ei darparu ar wahân i'r ddogfen hon a bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu o unrhyw newidiadau.

9. Terfynu

Ar ôl cwblhau a thalu pob haen yn llwyddiannus, anfonir llythyr terfynu prosiect at fuddiolwyr. Bydd hyn yn cynnwys manylion terfynol unrhyw gymhorthdal a ddyfarnwyd i ariannu'r prosiect a gwybodaeth ynghylch monitro parhaus. Caiff llythyrau terfynu eu cymeradwyo gan Brif Swyddog Gweithredol LSHW.

10. Monitro

Ar ôl cwblhau'r cyfnod talu, bydd prosiectau'n cael eu monitro bob chwarter am flwyddyn er mwyn adrodd ar yr hyn y maent wedi'i gontractio. Prif bwrpas monitro yw sicrhau bod y systemau a ddatblygir trwy gyllid yn parhau ar gael i'r defnyddwyr dros gyfnod o 12 mis o leiaf, ac nad ydynt yn cael eu tynnu oddi ar y farchnad. Byddwch hefyd yn cael eich monitro i sicrhau bod buddion eraill a ragwelir yn cael eu gwireddu. Tîm y rhaglen EPS fydd yn gyfrifol am fonitro eich prosiect.

Atodiad A EPS_WELSH_SPECIFIC REQUIREMENTS_SRS_v2.0

Gweler y ffeil wedi'i mewnblannu:

EPS_WELSH_SPECIFI
C REQUIREMENTS_SF

Mae'r ddogfen lawn ar gael ar gais gan fundingsupport@lshubwales.com. Anfonwch e-bost atom hefyd os dymunwch gael copi yn Gymraeg.

Atodiad B Manyleb Cydymffurfiaeth Systemau Dosbarthu v5.4 (NPFIT-ETP-EDB-0024)

Gweler y ffeil wedi'i mewnblannu:

Dispensing_Systems_
Compliance_Specifica

Mae'r ddogfen lawn ar gael ar gais gan fundingsupport@lshubwales.com. Anfonwch e-bost atom hefyd os dymunwch gael copi yn Gymraeg.

Atodiad C EPS_APPROACH TO ASSURANCE_v1.0 - Copi Cyflenwr

Gweler y ffeil wedi'i mewnblannu:

EPS_APPROACH TO
ASSURANCE_v1.0 - S

Mae'r ddogfen lawn ar gael ar gais gan fundingsupport@lshubwales.com. Anfonwch e-bost atom hefyd os dymunwch gael copi yn Gymraeg.